

ARTSCAPE

Galwad Agored ar gyfer Artistiaid, Ymarferwyr a Chydweithrediadau Creadigol Cyrsgau Preswyl CELFLUN Coedwig Hafren, Powys

YNGLŶN Â CHELFLUN

Mae CELFLUN yn golygu creu rhaglen o brofiadau a digwyddiadau celfyddydau creadigol sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n seiliedig ar yr ardal leol a themâu amgylcheddol o fewn y gofod ffisegol a digidol.

Cynghrair partneriaeth greadigol yw CELFLUN RHWNG **Gwasanaeth Celfyddydol a Diwylliannol Cyngor Sir Powys, Cyfoeth Naturiol Cymru, Impelo, 4Pi ac Articulture.**

Ffurfiwyd y bartneriaeth i ymgysylltu'n ddychmygus gyda chymunedau er mwyn ysgogi ailgysylltu, cyffroi brwdfrydedd tuag at ofalu am yr amgylchedd yn wyneb newid hinsawdd a hyrwyddo lles pobl trwy brofiadau celfyddydol ac amgylcheddol digidol, yn seiliedig ar le ac yn rhithwir sy'n rhyngysylltiedig.

Dod â chreadigrwydd, y celfyddydau, lles cymunedol a natur ynghyd mewn lle digidol a ffisegol

Gwrandewch a Chreu • (elfen canolbarth Powys o GELFLUN)

Beth yw'r prosiect?

Prosiect sy'n gweithio ar draws 3 o leoliadau awyr agored ym Mhowys yw CELFLUN. Cynhelir prosiect canolbarth Powys yng nghoedwig Hafren gyda'r gymuned leol ac artistiaid lleol yn cyd-greu gweithiau celf newydd. Bydd prosiect canol Powys yn cael ei gynnal yng nghoedwig Hafren gyda'r gymuned leol ac artistiaid lleol yn cyd-greu gweithiau celf newydd.

Mae CELFLUN yn ceisio ymgysylltu'r gymuned leol mewn sgwrs greadigol arbennig o leol ynghylch newid hinsawdd trwy'r celfyddydau, ynghyd ag iechyd a lles pobl sy'n byw yn y sir. Ein nod yw dechrau taith greadigol a chyflwyno gweledigaeth bositif ar gyfer dyfodol Powys lle'r ydym yn ymdrechu i fyw mewn harmoni gyda'n hamgylchedd mewn byd tecach.

Allwch chi fel artist helpu hwyluso ac archwilio'r bwriad hwn?

Beth allwch chi ei gynnig fel rhywun creadigol i'n cymunedau lleol i ysgogi sylw, empathi a pherthynas tymor hir gyda Choedwig Hafren?

Ynglŷn â'r Lleoliad

Mae Coedwig Hafren yn ffurfio rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru a leolir ar gyrion Mynyddoedd Cambria, 7 milltir i'r gorllewin o dref farchnad Llanidloes. Mae'n gorchuddio 15 milltir sgwâr, a blannwyd yn 1937 ac a reolir erbyn hyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Yn flaenorol, roedd yn gartref i ddiwydiannau plwm a thun ac erbyn hyn mae'n safle mynediad agored gyda digonedd o lwybrau cerdded gan gynnwys Llwybr Tarddiad yr Afon Hafren ar Bumlumon, y mynydd uchaf yng nghanolbarth Cymru. Mae dwy afon arall – Yr Wy a'r Rheidiol, yn dechrau eu taith hefyd o ranbarth y goedwig. Mae'r goedwig wedi bod yn gartref i arsyllfa hydroleg ers 1969 ac mae'n Arsyllfa Parth Critigol sy'n gysylltiedig ag arsyllfeydd eraill ar draws y byd.

Pwy ydym ni'n chwilio amdanynt?

Rydym yn chwilio am 3 artist / ymarferydd creadigol lleol i ymgysylltu'n weithgar gyda'r gymuned wrth ddychmygu eu dyfodol o fewn cyfyngiadau anghenion ein planed, tra'n mwynhau amgylchedd prydfferth Coedwig Hafren.

Y cam cyntaf

Fe fyddwn yn cynnal diwrnod archwilio a throchi yn y goedwig lle gofynnir i chi wneud cyswllt cychwynnol gyda chynrychiolwyr y gymuned leol a phrofi'r goedwig.

Yn y bore, bydd casgliad o dywyswyr yn cynnig y cyfle i chi archwilio'r goedwig gan ddefnyddio eich holl synhwyrâu – gwrando, eistedd, cerdded, siarad, ymdrochi yn nyfroedd y goedwig a bwyta picnic sydd wedi'i baratoi'n arbennig gyda'n gilydd. Bydd yr archwiliad hwn, o waelod ein traed hyd at yr entrychion uwch ein pennau, yn rhoi golwg fanwl ar nifer o nodweddion y goedwig, a chyfle i ddyysgu, i gysylltu a themlo wedi'n hysbrydoli gan natur.

Yn y prynhawn, gyda'r tywyswyr yn hwyluso unwaith eto, fe fyddwn yn tynnu ar ein profiadau o'r goedwig ac yn edrych y tu hwnt i hynny at y berthynas gyda'r byd trwy amser. Fe fyddwch yn treulio'r diwrnod gyda phobl sy'n cynrychioli defnyddwyr coedwig Hafren a chyd-artistiaid. Fe fydd hyn yn cael ei drefnu gan Articulture ac arbenigwyr gwadd a fydd yn cyfoethogi ein diwrnod.

Rydym yn chwilio am artistiaid lleol proffesiynol, ymarferwyr neu gydweithrediadau creadigol sy'n gweithio o fewn y disgyblaethau celfyddydau perfformio a gosodiadau sain, sy'n benodol i safle a chyda thema amgylcheddol/awyr agored.

Fe fyddwch angen bod dros 18 mlwydd oed a naill ai'n breswilydd ym Mhowys, neu'n gweithio yma'n rheolaidd. Gyda lleol, rydym yn golygu y gallwch arddangos hanes a chysylltiad cryf gyda'r ardal a ffurfiwyd dros amser. Fe fydd angen i chi ddarparu eich yswiriant atebolrwydd cyhoeddus eich hunan ar gyfer y prosiect hwn.

Rydym yn croesawu syniadau:-

1. Sy'n digwydd mewn 'lle cyhoeddus' yng Nghoedwig Hafren
2. Y gellir eu mwynhau gan gynulleidfa ddwyieithog – Cymraeg a Saesneg
3. Sy'n meddwl am heriau a chyfleoedd cadw pellter cymdeithasol (Covid) ac amodau'r tywydd
4. Yn dod â phobl ynghyd o wahanol gefndiroedd i gydweithio a chydweithredu â'i gilydd
5. Y gellir eu creu ar gyllideb o hyd at £4,000

Beth sydd ar gynnig?

Cyllideb

Ffi: £4,000 am isafswm o 16 diwrnod

Teithio £0.45 y filltir (hyd at £500)

Cyllideb ychwanegol ar gyfer deunyddiau o hyd at £500

Elfen ddigidol

Mae'r prosiect hwn hefyd yn golygu peilota a rhoi cynnig ar ffyrdd o ymgysylltu'n greadigol gyda phobl trwy ffurfiau dyfeisgar o gyfryngau digidol. Bydd elfen ddigidol yn cael ei datblygu gyda'r crëwyr amlgyfryngol ymgollol, 4pi Productions, gyda'r golwg o ehangu cyfranogiad a chyrraedd, gan dorri ffiniau cyfathrebu a chyflwyno tuag at wneud ac 'arddangos' gwaith celf newydd a chynnwys creadigol ar gyfer artistiaid lleol a bydeang yn y dyfodol.

Edrychwch ar eu gwaith ar <https://www.4piproductions.com>

Pryd fydd angen i mi fod ar gael?

Bydd y diwrnod gosod cyd-destun archwiliadol yn y goedwig rhwng 10am - 4pm ar ddydd Llun 06 Medi 2021 – rydym yn gwahodd Mynegiadau o Ddiddordeb I fynychu erbyn **5pm** y prynhawn ar **ddydd Gwener, 13 Awst 2021**

Os cewch eich dewis, fe fyddwch yn cael eich gwahodd am y diwrnod archwilio erbyn dydd Llun 23 Awst 2021. Fe fyddwn yn talu eich treuliau am y dydd ac yn darparu cinio a lluniaeth.

Fe fyddem yn hoffi i'r comisiynau ddigwydd rhwng dydd Sadwrn 30 Hydref a dydd Gwener 12 Tachwedd 2021 i gysylltu gyda COP26. Am dri degawd bron, mae'r Cenhedloedd Unedig wedi bod yn dod â bron pob gwlad ar y ddaear ynghyd ar gyfer uwchgynadleddau bydol ar yr hinsawdd – o'r new COPs – 'Cynhadledd y Partion'.

Yn yr amser hwnnw, mae newid hinsawdd wedi mynd o fod yn fater ymylol i flaenoriaeth fydol.

Eleni fydd y 26ain uwchgynhadledd flynyddol – gan arwain at ei henw sef COP26.

Edrychwch am ragor o wybodaeth ar <https://together-for-our-planet.ukcop26.org>

Fe fyddem yn disgwyl i chi ddechrau gwaith ar eich comisiwn o ddydd Llun 20 Medi 2021 ymlaen.

Fe fyddai'r ffi yn awgrymu oddeutu 16 diwrnod o ymrwymiad gwaith gyda'r mwyafrif ohono yn canolbwyntio ar gyflwyno eich comisiwn.

Fe fydd angen i chi bennu ychydig o amser i rannu eich canfyddiadau ac adborth ar gyflwyno'r comisiwn.

Sut ydw i'n ymgeisio?

I gofrestru eich diddordeb

Anfonwch dim mwy nag 1 ochr o destun A4 neu 3 munud o glip clywedol/fideo yn dweud wrthym ni am eich arfer ac yn amlinellu pam fod gennych chi ddiddordeb.

Anfonwch hyn at lucy.a.bear@powys.gov.uk gyda Chomisiynau CELFLUN Coedwig Hafren yn y llinell destun.

Fe fyddem hefyd yn eich annog chi i gynnwys elfen weledol megis ffotograffau o'ch gwaith neu ddolen eich gwefan.

Dyddiad cau i gyflwyno Mynegiadau o Ddiddordeb: erbyn 5pm, Dydd Gwener 13 Awst 2021

Gweddill y broses.

Fe fyddwn yn rhoi gwybod i chi os ydych wedi cael eich dewis i fynychu diwrnod archwilio'r goedwig erbyn dydd Llun 23 Awst 2021.

Wedi diwrnod archwilio'r goedwig ar ddydd Llun 06 Medi 2021, fe fyddwn yn rhoi gwybod i chi os ydych wedi cael eich gwahodd i symud ymlaen at y cam terfynol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno manylion pellach yw canol dydd, dydd Gwener 17 Medi 2021. Bydd artistiaid llwyddiannus yn cael gwybod erbyn dydd Llun 20 Medi 2021.

Ynglŷn â'n Partneriaid

Cyngor Sir Powys: [Cyngor Sir Powys County Council](http://www.powys.gov.uk)

Impelo: [Impelo](http://www.impelo.co.uk)

Cyfoeth Naturiol Cymru: [Natural Resources Wales](http://www.naturalresources.wales)

Articulture: [https://articulture-wales.co.uk](http://www.articulture-wales.co.uk)

4Pi Productions: [https://4piproductions.com](http://www.4piproductions.com)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwch gysylltu â Julie Ann Heskin yn ystod oriau gwaith arferol trwy anfon e-bost at julieann@articulture-wales.co.uk neu ar 07890 681212.

Rydym yn gobeithio clywed oddi wrthyhch!

ARTSCAPE

Prosiect a gyfwynir mewn partneriaeth dan arweiniad
Cyngor Sir Powys yw heARTscape

